

# RHESTR O WELLIANNAU WEDI’U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

## Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) Welsh Language and Education (Wales) Bill

Mae’r gwelliannau â \* ar eu pwys yn rhai newydd neu’n rhai sydd wedi’u haddasu  
Amendments marked \* are new or have been altered

Mae gwelliannau a nodir ag ‘R’ yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant  
cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu  
17 wrth gyflwyno’r gwelliant.

Amendments marked ‘R’ mean that the Member has declared either a registrable interest  
under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling  
the amendment.

---

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn –	
The Bill will be considered in the following order –	
Sections 1 – 5	Adrannau 1 – 5
Schedule 1	Atodlen 1
Sections 6 – 36	Adrannau 6 – 36
Schedule 2	Atodlen 2
Sections 37 – 55	Adrannau 37 – 55
Long title	Teitl Hir

---

**Cefin Campbell** **100**

Section 1, page 1, line 16, after ‘to’ at the second place where it occurs on a line, insert ‘at least’.  
Adran 1, tudalen 1, llinell 16, ar ôl ‘i’, mewnosoder ‘o leiaf’.

**Cefin Campbell** **101**

Section 1, page 1, after line 20, insert –  
‘() on digital platforms.’  
Adran 1, tudalen 1, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

‘() ar lwyfannau digidol.’.

**Mark Drakeford**

1

Section 1, page 1, line 21, leave out ‘to –

- (i) increase the provision of Welsh language education;
- (ii) increase the number of people who are learning Welsh’

and insert ‘for teaching Welsh and education through the medium of Welsh, including in relation to –

- (i) increasing the number of pupils of compulsory school age receiving education in “Primarily Welsh Language” category schools;
- (ii) increasing the number of “Primarily Welsh Language” category schools;
- (iii) increasing the amount of Welsh language education provided in “Dual Language” and “Primarily English language, partly Welsh” category schools’.

Adran 1, tudalen 1, llinell 22, hepgorer ‘ –

- (i) cynyddu’r ddarpariaeth o addysg Gymraeg;
- (ii) cynyddu nifer y bobl sy’n dysgu Cymraeg’

a mewnosoder ‘addysgu’r Gymraeg ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys mewn perthynas ag –

- (i) cynyddu nifer y disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy’n cael addysg mewn ysgolion categori “Prif Iaith – Cymraeg”;
- (ii) cynyddu nifer yr ysgolion categori “Prif Iaith - Cymraeg”;
- (iii) cynyddu swm yr addysg Gymraeg a ddarperir mewn ysgolion categori “Dwy Iaith” a chategori “Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg”’.

**Mark Drakeford**

2

Section 1, page 1, after line 23, insert –

‘() set targets for increasing the number of people learning Welsh;’.

Adran 1, tudalen 1, ar ôl llinell 23, mewnosoder –

‘() pennu targedau ar gyfer cynyddu nifer y bobl sy’n dysgu Cymraeg;’.

**Mark Drakeford**

3

Section 1, page 1, after line 29, insert –

‘() The Welsh Ministers may, by regulations, amend sub-section (1)(c) to amend the targets required to be set by the strategy, to include further targets or to remove them.’.

Adran 1, tudalen 1, ar ôl llinell 30, mewnosoder –

‘() Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio is-adran (1)(c) er mwyn diwygio’r targedau y mae’n ofynnol i’r strategaeth eu pennu, ychwanegu targedau neu eu dileu.’.

**Mark Drakeford**

4

Section 1, page 1, line 33, leave out '(c)' and insert '(subsection to be inserted by amendment 2)'.

Adran 1, tudalen 1, llinell 33, hepgorer '(c)' a mewnosoder '(yr is-adran i'w mewnosod gan welliant 2)'.

**Mark Drakeford**

5

Section 1, page 2, line 4, after '(1)(c)', insert 'and (subsection to be inserted by amendment 2)'.

Adran 1, tudalen 2, llinell 4, ar ôl '(1)(c)' yn yr ail le y mae'n ymddangos, mewnosoder 'a '(yr is-adran i'w mewnosod gan welliant 2)'.

**Mark Drakeford**

6

Section 1, page 2, after line 19, insert –

'() In this section references to “Primarily Welsh Language”, “Dual Language” and “Primarily English Language, partly Welsh” school categories are to be read in accordance with Part 3.'

Adran 1, tudalen 2, ar ôl llinell 19, mewnosoder –

'() Yn yr adran hon mae cyfeiriadau at gategoriâu ysgol “Prif Iaith - Cymraeg”, “Dwy Iaith” a “Prif Iaith - Saesneg, rhannol Gymraeg” i'w darllen yn unol â Rhan 3.'

**Cefin Campbell**

102

Section 2, page 2, line 21, leave out '5' and insert '4'.

Adran 2, tudalen 2, llinell 21, hepgorer '5' a mewnosoder '4'.

**Cefin Campbell**

103

Section 2, page 2, after line 25, insert –

'() an assessment of the number and percentage of pupils of compulsory school age in each local authority area receiving education in –

(i) “Primarily Welsh Language” language category schools (within the meaning given by section 9);

(ii) community special schools where the amount of Welsh language education provided by that school is not less than the minimum specified, in regulations made under section 10(1), for “Primarily Welsh Language” category schools.'

Adran 2, tudalen 2, ar ôl llinell 24, mewnosoder –

'() asesiad o nifer a chanran y disgyblion o oedran ysgol gorfodol ym mhob ardal awdurdod lleol sy'n cael addysg –

(i) mewn ysgolion categori “Prif Iaith - Cymraeg” (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 9);

- (ii) mewn ysgolion arbennig cymunedol lle nad yw’r swm o addysg Gymraeg a ddarperir gan yr ysgol honno yn llai na’r isafswm a bennir drwy reoliadau a wneir o dan adran 10(1), ar gyfer ysgolion categori “Prif Iaith – Cymraeg”.

**Mark Drakeford**

7

Section 2, page 2, line 27, leave out ‘(c)’ and insert (*subsection to be inserted by amendment 2*)’.

Adran 2, tudalen 2, llinell 26, hepgorer ‘(c)’ a mewnosoder ‘(*yr is-adran i’w mewnosod gan welliant 2*)’.

**Cefin Campbell**

104

Section 3, page 3, line 3, leave out ‘specified by the Welsh Ministers by regulations, but in calculating the number of speakers any relevant data’.

Adran 3, tudalen 3, llinell 2, hepgorer ‘a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau, ond wrth gyfrifo nifer y siaradwyr rhaid ystyried unrhyw ddata perthnasol’.

**Cefin Campbell**

105

Section 3, page 3, line 5, leave out ‘must be taken into account’.

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version.

**Cefin Campbell**

106

Section 3, page 3, after line 5, insert –

- ‘() If they consider it necessary for the purposes of sections 1 and 2, the Welsh Ministers may specify in regulations data, other than data derived from a census, to be taken into account in calculating the number of Welsh speakers.’.

Adran 3, tudalen 3, ar ôl llinell 5, mewnosoder –

- ‘() Os ydynt o’r farn bod angen gwneud hynny at ddibenion adrannau 1 a 2, caiff Gweinidogion Cymru bennu drwy reoliadau ddata, ac eithrio data sy’n deillio o gyfrifiad, i’w hystyried wrth gyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg.’.

**Mark Drakeford**

8

Section 3, page 3, line 7, leave out ‘16’ and insert ‘17’.

Adran 3, tudalen 3, llinell 8, hepgorer ‘16’ a mewnosoder ‘17’.

**Mark Drakeford**

9

Section 3, page 3, line 8, leave out ‘16, on the basis of self-assessment, the assessment of the child’s parent or carer, or any other method specified by the Welsh Ministers by regulations’ and insert ‘17, on the basis of self-assessment, or the assessment of the child’s parent or carer’.

Adran 3, tudalen 3, llinell 9, hepgorer ‘16 oed, ar sail hunanasesiad, asesiad rhiant neu ofalwr y plentyn, neu unrhyw ddull arall a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau’ a mewnosoder ‘17 oed, ar sail hunanasesiad neu asesiad rhiant neu ofalwr y plentyn’.

**Mark Drakeford**

10

Section 3, page 3, after line 10, insert –

- ‘() In the case of children under the age of 17, the Welsh Ministers may by regulations –
- (a) specify a method of deciding whether a person is a Welsh speaker for the purposes of section 1 and 2, and
  - (b) specify whether that method is to be used in addition to, or instead of, the assessments referred to in subsection (2)(b).’.

Adran 3, tudalen 3, ar ôl llinell 10, mewnosoder –

- ‘() O ran plant sydd o dan 17 oed, caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau –
- (a) pennu dull o benderfynu pa un a yw person yn siaradwr Cymraeg at ddibenion adrannau 1 a 2, a
  - (b) pennu a yw’r dull hwnnw i’w ddefnyddio yn ogystal â’r asesiadau y cyfeirir atynt yn is-adran (2)(b) neu yn lle’r asesiadau hynny.’.

**Cefin Campbell**

107

Section 3, page 3, line 17, leave out ‘subsection (1)’ and insert ‘subsections (1) and (*subsection to be inserted by amendment 106*)’.

Adran 3, tudalen 3, llinell 17, hepgorer ‘is-adran (1)’ a mewnosoder ‘is-adrannau (1) a (*yr is-adran i’w mewnosod gan welliant 106*)’.

**Cefin Campbell**

108

Section 4, page 3, after line 27, insert –

- ‘() any of the standards relating to the internal operation of a workplace to –
- (i) facilitate meeting a target set under this Part,
  - (ii) increase the number of workplaces where the internal administration is in Welsh, or
  - (iii) gather data on the use of the Welsh language in the internal administration of a workplace;’.

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 26, mewnosoder –

- ‘() un neu ragor o’r safonau sy’n ymwneud â gweithrediad mewnol gweithle er mwyn –
- (i) hwyluso cyflawni targed a bennir o dan y Rhan hon,
  - (ii) cynyddu nifer y gweithleoedd lle y mae’r weinyddiaeth fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg, neu
  - (iii) casglu data ar y defnydd o’r Gymraeg yng gweinyddiaeth fewnol gweithle;’.

**Cefin Campbell** 109

Section 8, page 5, after line 5, insert –

‘() recognises the importance of education through the medium of Welsh;’.

Adran 8, tudalen 5, ar ôl llinell 5, mewnosoder –

‘() yn cydnabod pwysigrwydd addysg drwy gyfrwng y Gymraeg;’.

**Cefin Campbell** 110

Section 8, page 5, after line 5, insert –

‘() sets targets for the number of pupils attending “Primarily Welsh Language” category schools;’.

Adran 8, tudalen 5, ar ôl llinell 5, mewnosoder –

‘() yn pennu targedau ar gyfer nifer y disgyblion sy’n mynychu ysgolion categori “Prif Iaith – Cymraeg;’.

**Cefin Campbell** 111

Section 8, page 5, line 21, leave out ‘, to pupils of compulsory school age’.

Adran 8, tudalen 5, llinell 21, hepgorer ‘, i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol’.

**Mark Drakeford** 11

Section 8, page 5, line 21, after ‘school,’ at the first place where it appears on a line, insert ‘during school sessions;’.

Adran 8, tudalen 5, llinell 21, ar ôl ‘ysgol’ yn y lle cyntaf y mae’n ymddangos, mewnosoder ‘, yn ystod sesiynau ysgol’.

**Mark Drakeford** 12

Section 8, page 5, after line 21, insert –

‘() “Welsh language nursery education” means –

- (i) teaching Welsh, and
- (ii) education through the medium of Welsh

in a school or maintained nursery school during school sessions to pupils under compulsory school age;’.

Adran 8, tudalen 5, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

‘() ystyr “addysg feithrin Gymraeg” yw –

- (i) addysgu’r Gymraeg, a
- (ii) addysg drwy gyfrwng y Gymraeg

mewn ysgol neu ysgol feithrin a gynhelir yn ystod sesiynau ysgol i ddisgyblion sydd o dan oedran ysgol gorfodol;’.

**Mark Drakeford**

**13**

Section 8, page 5, line 22, after ‘school’ at the second place where it appears on a line, insert ‘that has pupils of compulsory school age’.

Adran 8, tudalen 5, llinell 22, ar ôl ‘gynhelir’, mewnosoder ‘sydd â disgyblion o oedran ysgol gorfodol’.

**Cefin Campbell**

**112**

Section 8, page 5, line 22, after ‘school’ at the second place where it appears on a line, insert ‘including, where applicable, its sixth form’.

Adran 8, tudalen 5, llinell 22, ar ôl ‘gynhelir’, mewnosoder ‘gan gynnwys, pan fo’n gymwys, ei chweched dosbarth’.

**Cefin Campbell**

**113**

Page 5, after line 22, insert a new section –

**[ ] Importance of Welsh medium education**

Education through the medium of Welsh is the most effective method of ensuring confident and fluent speakers who are more likely to use the Welsh language beyond education, communally, in future jobs and to transmit the ability to use the Welsh language within families.’.

Tudalen 5, ar ôl llinell 22, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Pwysigrwydd addysg drwy gyfrwng y Gymraeg**

Addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yw’r dull mwyaf effeithiol o sicrhau siaradwyr hyderus a rhugl sydd yn fwy tebygol o ddefnyddio’r Gymraeg y tu hwnt i addysg, yn gymunedol, mewn swyddi yn y dyfodol ac i drosglwyddo’r gallu i ddefnyddio’r Gymraeg o fewn teuluoedd.’.

**Cefin Campbell**

**114**

Section 10, page 6, after line 1, insert –

‘() A school is a “Primarily Welsh Language” language category school if –

- (a) its entire education provision is through the medium of Welsh, except where languages other than Welsh are taught as a subject, and
- (b) the ethos and culture promoted by and within the school is Welsh.’.

Adran 10, tudalen 6, ar ôl llinell 1, mewnosoder –

‘() Mae ysgol yn ysgol categori “Prif Iaith - Cymraeg” –

- (a) os yw ei holl darpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, ac eithrio pan gaiff ieithoedd heblaw am y Gymraeg eu haddysgu fel pwnc, a
- (b) os yw’r ethos a’r diwylliant a gaiff eu hybu gan yr ysgol ac o fewn iddi yn Gymraeg.’.

**Cefin Campbell**

**115**

Section 10, page 6, line 3, leave out ‘provided for’ and insert ‘to be provided for all pupils of compulsory school age in’.

Adran 10, tudalen 6, llinell 2, hepgorer ‘a ddarperir ar gyfer pob’ a mewnosoder ‘sydd i’w ddarparu ar gyfer pob disgybl o oedran ysgol gorfodol ym mhob’.

**Cefin Campbell**

**116**

Section 10, page 6, line 3, leave out ‘each’ and insert ‘the “Dual Language” language category and the “Primarily English Language, partly Welsh”’.

Adran 10, tudalen 6, llinell 3, hepgorer ‘pob categori iaith’ a mewnosoder ‘y categori “Dwy Iaith” a’r categori “Prif Iaith - Saesneg, rhannol Gymraeg”’.

**Cefin Campbell**

**117**

Section 10, page 6, line 12, leave out ‘10%’ and insert ‘20%’.

Adran 10, tudalen 6, llinell 10, hepgorer ‘10%’ a mewnosoder ‘20%’.

**Cefin Campbell**

**118**

Section 10, page 6, after line 16, insert –

- ‘() The governing body of a school must ensure that the school offers at least 5% of any activities that it provides outside of school sessions through the medium of Welsh.’.

Adran 10, tudalen 6, ar ôl llinell 14, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i gorff llywodraethu ysgol sicrhau bod yr ysgol yn cynnig o leiaf 5% o unrhyw weithgareddau a ddarperir ganddi y tu allan i sesiynau ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg.’.

**Mark Drakeford**

**14**

Section 10, page 6, line 17, leave out subsection (5).

Adran 10, tudalen 6, llinell 15, hepgorer is-adran (5).

**Cefin Campbell**

**119**

Section 11, page 6, line 31, leave out ‘a date specified by the Welsh Ministers by regulations’ and insert ‘31 December 2050’.

Adran 11, tudalen 6, llinell 26, hepgorer ‘dyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau’ a mewnosoder ‘31 Rhagfyr 2050’.

**Cefin Campbell** **120**

Section 11, page 7, line 2, leave out ‘a date specified by the Welsh Ministers by regulations’ and insert ‘31 December 2050’.

Adran 11, tudalen 7, llinell 2, hepgorer ‘dyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau’ a mewnosoder ‘31 Rhagfyr 2050’.

**Cefin Campbell** **121**

Section 11, page 7, line 4, leave out ‘it is assumed that the pupils of the school’ and insert ‘there is a strong expectation that the pupils of the school will’.

Adran 11, tudalen 7, llinell 4, hepgorer ‘tybir bod’ a mewnosoder ‘mae disgwyliad cryf y bydd’.

**Cefin Campbell** **122**

Section 12, page 7, line 24, leave out ‘or 19’.

Adran 12, tudalen 7, llinell 24, hepgorer ‘neu 19’.

**Cefin Campbell** **123**

Section 13, page 7, line 37, after ‘category’, insert ‘other than the “Primarily Welsh Language” category’.

Adran 13, tudalen 7, llinell 37, ar ôl ‘iaith’, mewnosoder ‘ac eithrio'r categori “Prif Iaith - Cymraeg”’.

**Cefin Campbell** **124**

Section 13, page 7, leave out lines 38 to 39 and insert –

- ‘() The Welsh Ministers must, by regulations, amend section 10(3) so as to increase the minimum amount of Welsh language education provision for the “Primarily English Language, partly Welsh” category.
- () The Welsh Ministers must, by regulations, increase the minimum amount of Welsh language education specified for “Dual Language” category schools.’.

Adran 13, tudalen 7, hepgorer llinellau 38 hyd at 39 a mewnosoder –

- ‘() Rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio adran 10(3) er mwyn cynyddu’r isafswm o ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer ysgolion categori “Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg”.
- () Rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, gynyddu’r isafswm o addysg Gymraeg a bennir ar gyfer ysgolion categori “Dwy Iaith”.’.

**Cefin Campbell**

125

Section 13, page 8, line 8, leave out subsection (5).

Adran 13, tudalen 8, llinell 8, hepgorer is-adran (5).

**Samuel Kurtz**

92

Section 14, page 8, after line 22, insert –

- ‘( ) sets out the steps the governing body will take to ensure that education practitioners providing Welsh language education will be sufficiently qualified to provide education and training in a particular subject and to deliver that education and training through the medium of Welsh;’.

Adran 14, tudalen 8, ar ôl llinell 22, mewnosoder –

- ‘( ) sy’n nodi’r camau y bydd y corff llywodraethu yn eu cymryd i sicrhau bod ymarferwyr addysg sy’n darparu addysg Gymraeg yn meddu ar gymwysterau digonoli ddarparu addysg a hyfforddiant mewn pwnc penodol ac i gyflwyno’r addysg honno a’r hyfforddiant hwnnw drwy gyfrwng y Gymraeg;’.

**Samuel Kurtz**

93

Section 14, page 8, after line 24, insert –

- ‘( ) explains how the governing body will ensure that schools support parents in their engagement with, and understanding of, Welsh language education and in particular any homework relating to Welsh language education;’.

Adran 14, tudalen 8, ar ôl llinell 24, mewnosoder –

- ‘( ) sy’n esbonio sut y bydd y corff llywodraethu yn sicrhau bod ysgolion yn cefnogi rhieni o ran eu hymgysylltiad ag addysg Gymraeg a’u dealltwriaeth ohoni, ac yn benodol unrhyw waith cartref sy’n ymwneud ag addysg Gymraeg;’.

**Mark Drakeford**

15

Section 14, page 8, after line 29, insert –

- ‘( ) sets out, if the school provides education to pupils under compulsory school age –
- (i) the amount of Welsh language nursery education provided at the time the delivery plan is being prepared,
  - (ii) the governing body’s proposals on the amount of Welsh language nursery education it intends to provide during the period for which the delivery plan has effect,
  - (iii) the governing body’s proposals for maintaining that amount of Welsh language nursery education, and increasing the amount where this is reasonably practicable;’.

Adran 14, tudalen 8, ar ôl llinell 29, mewnosoder –

- ‘( ) sy’n nodi, os yw’r ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion sydd o dan oedran ysgol gorfodol –

- (i) y swm o addysg feithrin Gymraeg a ddarperir ar yr adeg y llunnir y cynllun cyflawni,
- (ii) cynigion y corff llywodraethu ar y swm o addysg feithrin Gymraeg y bwriedir ei ddarparu yn ystod y cyfnod y mae’r cynllun cyflawni yn cael effaith amdano,
- (iii) cynigion y corff llywodraethu ar gynnal y swm hwnnw o addysg feithrin Gymraeg, a chynyddu’r swm pan fo hynny’n rhesymol ymarferol.’.

**Cefin Campbell**

126

Section 14, page 8, after line 35, insert –

- ‘() sets out the governing body’s proposals on how it will prepare for a change in the school’s language category (see section 17) –
  - (i) from a “Primarily English Language, partly Welsh” category school, to a “Dual Language” category school;
  - (ii) from a “Dual Language” category school, to a “Primarily Welsh Language” category school.’.

Adran 14, tudalen 8, ar ôl llinell 34, mewnosoder –

- ‘() sy’n nodi cynigion y corff llywodraethu ar sut y bydd yn paratoi ar gyfer newid categori iaith yr ysgol (gweler adran 17) –
  - (i) o ysgol categori “Prif Iaith - Saesneg, rhannol Gymraeg, i ysgol categori “Dwy Iaith”;
  - (ii) o ysgol categori “Dwy Iaith”, i ysgol categori “Prif Iaith - Cymraeg”.’.

**Cefin Campbell**

127

Section 14, page 8, after line 38, insert –

- ‘() makes provision in relation to its sixth form, if any, to ensure that the amount of teaching of Welsh, and the education and training provided through the medium of Welsh, is the same as that specified for the school’s language category.’.

Adran 14, tudalen 8, ar ôl llinell 37, mewnosoder –

- ‘() sy’n gwneud darpariaeth mewn perthynas â’i chweched dosbarth, os oes un, er mwyn sicrhau bod y swm o Gymraeg a addysgir a’r swm o addysg a hyfforddiant a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg yr un fath â’r swm a bennir ar gyfer categori iaith yr ysgol.’.

**Mark Drakeford**

16

Section 14, page 9, line 4, after ‘head’, insert ‘teacher’.

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version.

**Mark Drakeford**

17

Section 15, page 10, line 10, after '(g)', insert 'and (subsection to be inserted by amendment 15)'.

Adran 15, tudalen 10, llinell 10, ar ôl '(g)', mewnosoder 'ac '(yr is-adran i'w mewnosod gan welliant 15)'.

**Mark Drakeford**

18

Section 16, page 11, line 7, after '(g)', insert 'and (subsection to be inserted by amendment 15)'.

Adran 16, tudalen 11, llinell 7, ar ôl '(g)', mewnosoder 'ac '(yr is-adran i'w mewnosod gan welliant 15)'.

**Cefin Campbell**

128

Page 11, after line 19, insert a new section –

*'New schools*

**[ ] New schools**

(1) The School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (anaw. 1) is amended as follows.

(2) In section 41 (proposals to establish mainstream schools), after subsection (2), insert –

“(3) Before making a proposal under subsection (1) or (2), a linguistic impact assessment must be carried out by the local authority or person making the proposal.

(4) A proposal made under subsection (1) or (2) must include details of the outcome of the linguistic impact assessment carried out under subsection (3).

(5) The Welsh Ministers must set out in regulations what must be included in a linguistic impact assessment.”.

Tudalen 11, ar ôl llinell 16, mewnosoder adran newydd –

*'Ysgolion newydd*

**[ ] Ysgolion newydd**

(1) Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (dccc 1) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 41 (cynigion i sefydlu ysgolion prif ffrwd), ar ôl is-adran (2), mewnosoder –

“(3) Cyn gwneud cynnig o dan is-adran (1) neu (2), rhaid i asesiad effaith ieithyddol gael ei gynnal gan yr awdurdod lleol neu'r person sy'n gwneud y cynnig.

(4) Rhaid i gynnig a wneir o dan is-adran (1) neu (2) gynnwys manylion canlyniad yr asesiad effaith ieithyddol a gynhaliwyd o dan is-adran (3).

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru nodi mewn rheoliadau yr hyn y mae rhaid ei gynnwys mewn asesiad effaith ieithyddol.”.

**Cefin Campbell**

**129**

Page 11, after line 19, insert a new section –

**[ ] Pupils receiving education through the medium of Welsh**

- (1) The Welsh Ministers must ensure that the following percentages of pupils in Wales attend “Primarily Welsh Language” category schools by no later than the dates specified –
  - (a) at least 50% by 31 December 2050;
  - (b) at least 60% by 31 December 2060;
  - (c) at least 70% by 31 December 2070;
  - (d) at least 80% by 31 December 2080; and
  - (e) at least 90% by 31 December 2090.
- (2) The Welsh Ministers must ensure that all pupils in Wales attend “Primarily Welsh Language” category schools by 31 December 2100.’.

Tudalen 11, ar ôl llinell 16, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Disgyblion sy’n cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod y canrannau a ganlyn o ddisgyblion yng Nghymru yn mynychu ysgolion categori “Prif Iaith - Cymraeg” heb fod yn hwyrach na’r dyddiadau a bennir –
  - (a) o leiaf 50% erbyn 31 Rhagfyr 2050;
  - (b) o leiaf 60% erbyn 31 Rhagfyr 2060;
  - (c) o leiaf 70% erbyn 31 Rhagfyr 2070;
  - (d) o leiaf 80% erbyn 31 Rhagfyr 2080; ac
  - (e) o leiaf 90% erbyn 31 Rhagfyr 2090.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod pob disgybl yng Nghymru yn mynychu ysgolion categori “Prif Iaith - Cymraeg” erbyn 31 Rhagfyr 2100.’.

**Cefin Campbell**

**130**

Page 12, line 10, leave out section 19.

Tudalen 12, llinell 10, hepgorer adran 19.

**Cefin Campbell**

**131**

Page 13, after line 1, insert a new section –

*‘School reorganisation proposals*

**[ ] School reorganisation proposals: Assumption that education will be provided through the medium of Welsh**

- (1) The School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (anaw. 1) is amended as follows.

(2) In section 38 (school organisation code), after subsection (3), insert –

(a) after subsection (3), insert –

“(3A) The Code must provide for an assumption that where any proposal is made under sections 42 and 45 such proposal must confirm that the level of Welsh language education provided to pupils affected by the proposal will not be reduced if the proposal is approved, unless sound reasons are provided as to why this would not be reasonable.”

(b) after subsection (8) insert –

“(9) In this section “Welsh language education” has the meaning given in section 8(2)(a) of the Welsh Language and Education Act 2025 (asc X).”.

Tudalen 13, ar ôl llinell 2, mewnosoder adran newydd –

*‘Cynigion i ad-drefnu ysgolion*

**[ ] Cynigion i ad-drefnu ysgolion: Y dybiaeth y bydd addysg yn cael ei darparu drwy gyfrwng y Gymraeg**

(1) Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (dccc 1) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 38 (Cod Trefniadaeth Ysgolion), ar ôl is-adran (3), mewnosoder –

(a) ar ôl is-adran (3), mewnosoder –

“(3A) Rhaid i’r Cod ddarparu ar gyfer y dybiaeth, pan wneir unrhyw gynnig o dan adrannau 42 a 45, bod rhaid i gynnig o’r fath gadarnhau na fydd lefel yr addysg Gymraeg a ddarperir i ddisgyblion y mae’r cynnig yn effeithio arnynt yn cael ei gostwng os cymeradwyir y cynnig, oni bai bod rhesymau cadarn yn cael eu darparu ynghylch pam na fyddai hyn yn rhesymol.

(b) ar ôl is-adran 8, mewnosoder –

“(9) Yn yr adran hon, mae i “addysg Gymraeg” yr ystyr a roddir yn adran 8(2)(a) o Ddeddf y Gymraeg ac Addysg 2025 (dsc X).”.

**Cefin Campbell**

132

Page 13, after line 1, insert a new section –

*‘New schools*

**[ ] New schools: Assumption that education will be provided through the medium of Welsh**

(1) The School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (anaw. 1) is amended as follows.

(2) In section 38 (school organisation code), after subsection (3), insert –

“(3A) The Code must provide for an assumption that any new school within a designated area would be a Primarily Welsh Language category school unless the local authority had sound reasons for deciding that this would not be reasonable.”.

Tudalen 13, ar ôl llinell 2, mewnosoder adran newydd –

*‘Ysgolion newydd*

**[ ] Ysgolion newydd: Y dybiaeth y bydd addysg yn cael ei darparu drwy gyfrwng y Gymraeg**

- (1) Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (dccc 1) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn adran 38 (cod trefniadaeth ysgolion), ar ôl is-adran (3), mewnosoder –
  - “(3A) Rhaid i’r Cod ddarparu ar gyfer y dybiaeth y bydd unrhyw ysgol newydd mewn ardal ddynodedig yn ysgol categori “Prif Iaith - Cymraeg” oni bai bod gan yr awdurdod lleol resymau cadarn dros benderfynu na fyddai hyn yn rhesymol.”

**Mark Drakeford**

**19**

Section 20, page 13, line 5, after ‘education’, insert ‘delivery’.

Adran 20, tudalen 13, llinell 6, ar ôl (“cynllun’, mewnosoder ‘cyflawni’.

**Mark Drakeford**

**20**

Section 20, page 13, after line 6, insert –

- ‘( ) if the school provides education to pupils under compulsory school age, the amount of Welsh language nursery education provided;’.

Adran 20, tudalen 13, ar ôl llinell 7, mewnosoder –

- ‘( ) os yw’r ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion sydd o dan oedran ysgol gorfodol, y swm o addysg feithrin Gymraeg a ddarperir;’.

**Mark Drakeford**

**21**

Section 20, page 13, line 11, after ‘education’, insert ‘delivery’.

Adran 20, tudalen 13, llinell 12, ar ôl ‘cynlluniau’, mewnosoder ‘cyflawni’.

**Mark Drakeford**

**22**

Page 13, after line 20, insert a new section –

*‘Maintained nursery schools*

**[ ] Welsh language nursery education delivery plans**

- (1) A maintained nursery school’s governing body must prepare a plan in relation to the Welsh language (“a Welsh language nursery education delivery plan”) that sets out –
  - (a) the amount of Welsh language nursery education provided by the nursery school;
  - (b) the governing body’s proposals on –

- (i) the amount of Welsh language nursery education it intends to provide during the period for which the Welsh language nursery education delivery plan has effect,
- (ii) maintaining that amount of Welsh language nursery education, and increasing the amount where this is reasonably practicable;
- (c) the governing body’s proposals on how it will –
  - (i) promote a Welsh language ethos and culture within the nursery school;
  - (ii) promote use of the Welsh language within the nursery school.
- (2) In preparing the Welsh language nursery education delivery plan, the governing body must have regard to the local Welsh in education strategic plan of the local authority that maintains the nursery school (see section 28).
- (3) The Welsh Ministers may, by regulations, make further provision about Welsh language nursery education plans, including provision about –
  - (a) duration and timing of a plan;
  - (b) consulting on a plan;
  - (c) approving a plan;
  - (d) reviewing and amending a plan.’.

Tudalen 13, ar ôl llinell 22, mewnosoder adran newydd –

*‘Ysgolion meithrin a gynhelir*

**[ ] Cynlluniau cyflawni addysg feithrin Gymraeg**

- (1) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol feithrin a gynhelir lunio cynllun mewn perthynas â’r Gymraeg (“cynllun cyflawni addysg feithrin Gymraeg”) sy’n nodi –
  - (a) y swm o addysg feithrin Gymraeg a ddarperir gan yr ysgol feithrin;
  - (b) cynigion y corff llywodraethu –
    - (i) ar y swm o addysg feithrin Gymraeg y bwriedir ei ddarparu yn ystod y cyfnod y mae’r cynllun cyflawni addysg feithrin Gymraeg yn cael effaith amdano, a
    - (ii) ar gynnal y swm hwnnw o addysg feithrin Gymraeg, a chynyddu’r swm pan fo hynny’n rhesymol ymarferol;
  - (c) cynigion y corff llywodraethu ar sut y bydd yn –
    - (i) hybu ethos a diwylliant Cymraeg o fewn yr ysgol feithrin;
    - (ii) hybu defnydd o’r Gymraeg o fewn yr ysgol feithrin.
- (2) Wrth lunio’r cynllun cyflawni addysg feithrin Gymraeg rhaid i’r corff llywodraethu roi sylw i gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg yr awdurdod lleol sy’n cynnal yr ysgol feithrin (gweler adran 28).
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth bellach ynghylch cynlluniau cyflawni addysg feithrin Gymraeg, gan gynnwys darpariaeth ynghylch –
  - (a) hyd ac amseriad cynllun;
  - (b) ymgynghori ar gynllun;
  - (c) cymeradwyo cynllun;



(d) adolygu a diwygio cynllun.’.

**Cefin Campbell**

**133**

Section 21, page 13, line 28, leave out ‘or 19’.

Adran 21, tudalen 13, llinell 29, hepgorer ‘neu 19’.

**Cefin Campbell**

**134**

Page 14, after line 9, insert a new section –

*‘Learner travel*

**[ ] Amendments to the Learner Travel (Wales) Measure 2008 (c. 02)**

- (1) The Learner Travel (Wales) Measure 2008 is amended as follows.
- (2) In section 3, in subsection (6), after “the child” in the second place that it occurs insert “, the child’s preferred language choice of Welsh or English”.
- (3) In section 7, in subsection (3), in paragraph (d) after “arrangements” insert “, which must include the language medium of the young person;”.
- (4) In section 8, in subsection (2), in paragraph (e) after “arrangements” insert “, which must include the language medium of the child;”.’.

Tudalen 14, ar ôl llinell 8, mewnosoder adran newydd –

*‘Teithio gan ddysgwyr*

**[ ] Diwygiadau i Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (p. 02)**

- (1) Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn adran 3, yn is-adran (6), ar ôl “plentyn” yn yr ail le y mae’n ymddangos mewnosoder “, dewis iaith y plentyn o ran y Gymraeg neu’r Saesneg”.
- (3) Yn adran 7, yn is-adran (3), ym mharagraff (d) ar ôl “teithio” mewnosoder “, y mae’n rhaid iddynt gynnwys cyfrwng iaith y person ifanc;”.
- (4) Yn adran 8, yn is-adran (2), ym mharagraff (e) ar ôl “teithio” mewnosoder “, y mae’n rhaid iddynt gynnwys cyfrwng iaith y plentyn;”.’.

**Cefin Campbell**

**135**

Page 14, after line 9, insert a new section –

*‘Learner travel*

**[ ] Amendments to the Learner Travel (Wales) Measure 2008 (c. 02)**

- (1) The Learner Travel (Wales) Measure 2008 is amended as follows.
- (2) In section 10 –
  - (a) in both the italics heading and the section heading, omit “Promoting” and insert “Providing”;

(b) omit “promote” and insert “provide”.

Tudalen 14, ar ôl llinell 8, mewnosoder adran newydd –

*‘Teithio gan ddysgwyr*

**[ ] Diwygiadau i Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) (p. 02)**

(1) Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 10 –

(a) yn y pennawd italic a phennawd yr adran, hepgorer “Hybu” a mewnosoder “Darparu”;

(b) hepgorer “hybu” a mewnosoder “darparu”.

**Cefin Campbell**

**136**

Section 22, page 14, line 20, after ‘encourage’, insert ‘an increase in’.

Adran 22, tudalen 14, llinell 18, ar ôl ‘annog’, mewnosoder ‘cynnydd yn y’.

**Cefin Campbell**

**137**

Section 22, page 14, line 20, after ‘and’, insert ‘increased’.

Adran 22, tudalen 14, llinell 18, hepgorer ‘chyfranogiad’ a mewnosoder ‘chynnydd mewn cyfranogiad’.

**Cefin Campbell**

**138**

Section 22, page 14, after line 27, insert –

‘() take all reasonable steps to increase the demand for, and participation in, late immersion education;’.

Adran 22, tudalen 14, ar ôl llinell 26, mewnosoder –

‘() cymryd pob cam rhesymol i gynyddu’r galw am addysg drochi hwyr a chyfranogiad ynddi;’.

**Cefin Campbell**

**140**

Section 22, page 14, after line 37, insert –

‘() The Welsh Ministers must pay each local authority an amount sufficient to enable functions conferred by or under this section to be carried out.’.

Adran 22, tudalen 14, ar ôl llinell 36, mewnosoder –

‘() Rhaid i Weinidogion Cymru dalu swm digonol i bob awdurdod lleol er mwyn galluogi swyddogaethau a roddir gan yr adran hon neu oddi tani i gael eu cyflawni.’.

**Cefin Campbell**

139

Page 14, after line 37, insert a new section –

*‘Qualifications*

**[ ] Welsh language education qualifications**

(1) The Qualifications Wales Act 2015 (anaw 5) is amended as follows.

(2) In section 13 –

(a) after subsection (3) insert –

“(3A) The list must not include any qualification which is based upon Welsh being learnt as a second language.

(3B) Any Welsh language qualifications that are included in the list must align with the Welsh language learning goals and the Code.”

(b) After subsection (6) insert –

“(7) In this section –

( ) the “Welsh language learning goals” are as set out in section 11 of the Welsh Language and Education (Wales) Act 2025 (asc X),

( ) “the Code” is the Code prepared under section 6 of that Act.”

(3) In section 29, after subsection (4), insert –

“(4A) Qualifications Wales may not designate a form of qualification under this section if it is or would be based upon Welsh being learnt as a second language.”.

Tudalen 14, ar ôl llinell 36, mewnosoder adran newydd –

*‘Cymwysterau*

**[ ] Cymwysterau addysg Gymraeg**

(1) Mae Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (dccc 5) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 13 –

(a) ar ôl is-adran (3) mewnosoder –

“(3A) Ni chaiff y rhestr gynnwys unrhyw gymhwyster sy’n seiliedig ar ddysgu’r Gymraeg fel ail iaith.

(3B) Rhaid i unrhyw gymwysterau Cymraeg a gynhwysir yn y rhestr gyd-fynd â’r nodau dysgu Cymraeg a’r Cod.”

(b) Ar ôl is-adran (6) mewnosoder –

“(7) Yn yr is-adran hon –

( ) mae’r “nodau dysgu Cymraeg” fel y’u nodir yn adran 11 o Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 (dsc X),

( ) “y Cod” yw’r Cod a luniwyd o dan adran 6 o’r Ddeddf honno.”

(3) Yn adran 29, ar ôl is-adran (4), mewnosoder –

“(4A) Ni chaiff Cymwysterau Cymru ddynodi math o gymhwyster o dan yr adran hon os yw’n seiliedig ar ddysgu’r Gymraeg fel ail iaith neu os byddai’n seiliedig ar hynny.”’.

**Cefin Campbell**

**141**

Page 14, after line 37, insert a new section –

*‘Qualifications*

**[ ] Welsh language education qualifications**

- (1) The Qualifications Wales Act 2015 (anaw 5) is amended as follows.
- (2) After section 51, insert –

**“51A Duty to share information and data**

- (1) Qualifications Wales must provide information and data on –
  - ( ) the number of pupils who take examinations in each academic year through the medium of Welsh, and
  - ( ) pupils’ achievement against the Welsh language learning goals in Welsh as a subject.
- (2) A duty to which this section applies does not operate to require or authorise the disclosure or use of information which would contravene the data protection legislation; but the duty is to be taken into account in determining whether the disclosure or use would contravene that legislation.
- (3) In this section –
  - ( ) “academic year” means the period of 12 months ending on 31 August,
  - ( ) “data protection legislation” has the same meaning as in the Data Protection Act 2018 (c. 12) (see section 3 of that Act),
  - ( ) “pupils” means pupils of compulsory school age, within the meaning given in section 8 of the Education Act 1996 (c. 56),
  - ( ) “Welsh language learning goals” means the goals described in section 11 of the Welsh Language and Education (Wales) Act 2025 (asc X).’.

Tudalen 14, ar ôl llinell 36, mewnosoder adran newydd –

*‘Cymwysterau*

**[ ] Cymwysterau addysg Gymraeg**

- (1) Mae Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (dccc 5) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Ar ôl adran 51 mewnosoder –

**“51A Dyletswydd i rannu gwybodaeth a data**

- (1) Rhaid i Gymwysterau Cymru ddarparu gwybodaeth a data ar –

- ( ) nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau ym mhob blwyddyn academaidd drwy gyfrwng y Gymraeg, a
  - ( ) cyflawniad disgyblion yn erbyn y nodau dysgu Cymraeg mewn Cymraeg fel pwnc.
- (2) Nid yw dyletswydd y mae'r adran hon yn gymwys iddi yn gweithredu i'w gwneud yn ofynnol, neu i awdurdodi, datgelu neu ddefnyddio gwybodaeth a fyddai'n torri'r ddeddfwriaeth diogelu data; ond mae'r ddyletswydd i'w hystyried wrth benderfynu a fyddai'r datgeliad neu'r defnydd yn torri'r ddeddfwriaeth honno.
- (2) Yn yr adran hon –
- ( ) ystyr “blwyddyn academaidd” yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Awst,
  - ( ) mae i “deddfwriaeth diogelu data” yr ystyr a roddir i “data protection legislation” yn Neddf Diogelu Data 2018 (p. 12) (gweler adran 3 o'r Ddeddf honno),
  - ( ) ystyr “disgyblion” yw disgyblion o oedran ysgol gorfodol, o fewn yr ystyr a roddir i “pupils” yn adran 8 o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56),
  - ( ) ystyr “nodau dysgu Cymraeg” yw'r nodau a ddisgrifir yn adran 11 o Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 (dsc X).”.

**Mark Drakeford**

23

Section 23, page 15, after line 8, insert –

‘( ) Welsh language provision in tertiary education,’.

Adran 23, tudalen 15, ar ôl llinell 8, mewnosoder –

‘( ) darpariaeth Gymraeg mewn addysg drydyddol,’.

**Mark Drakeford**

24

Section 23, page 15, line 18, leave out ‘provision of Welsh language education in schools’ and insert ‘amount of Welsh language education provided’.

Adran 23, tudalen 15, llinell 18, hepgorer ‘ddarpariaeth o addysg Gymraeg mewn ysgolion’ a mewnosoder ‘swm o addysg Gymraeg a ddarperir’.

**Cefin Campbell**

142

Section 23, page 15, line 18, after ‘schools’, insert ‘to enable –

- (i) a “Primarily English Language, partly Welsh” category school to become a “Dual Language” category school;
- (ii) a “Dual Language” category school to become a “Primarily Welsh Language” category school’.

Adran 23, tudalen 15, llinell 18, ar ôl ‘ysgolion’, mewnosoder ‘i alluogi –

- (i) ysgol categori “Prif Iaith - Saesneg, rhannol Gymraeg” i ddod yn ysgol categori “Dwy Iaith”;
- (iii) ysgol categori “Dwy Iaith” i ddod yn ysgol categori “Prif Iaith - Cymraeg”.

**Mark Drakeford**

25

Section 23, page 15, line 19, leave out ‘in schools’.  
Adran 23, tudalen 15, llinell 19, hepgorer ‘mewn ysgolion’.

**Mark Drakeford**

26

Section 23, page 15, line 20, after ‘promoting’, insert ‘Welsh language’.  
Adran 23, tudalen 15, llinell 20, ar ôl ‘addysg’, mewnosoder ‘Gymraeg’.

**Mark Drakeford**

27

Section 23, page 15, line 20, leave out ‘or “Dual Language”’.  
Adran 23, tudalen 15, llinell 20, hepgorer ‘ac ysgolion categori “Dwy Iaith”’.

**Mark Drakeford**

28

Section 23, page 15, leave out lines 22 to 24.  
Adran 23, tudalen 15, hepgorer llinellau 22 hyd at 24.

**Mark Drakeford**

29

Section 23, page 15, line 25, leave out ‘to facilitate progression’ and insert ‘encouraging continuity’.  
Nid oes angen diwygio’r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version.

**Cefin Campbell**

143

Section 23, page 15, line 25, leave out ‘to facilitate progression’ and insert ‘encouraging and maintaining continuity’.  
Adran 23, tudalen 15, llinell 25, ar ôl ‘annog’, mewnosoder ‘a chynnal’.

**Mark Drakeford**

30

Section 23, page 15, after line 27, insert—  
‘() maintained primary schools and maintained secondary schools, and’.  
Adran 23, tudalen 15, ar ôl llinell 27, mewnosoder—  
‘() ysgolion cynradd a gynhelir ac ysgolion uwchradd a gynhelir, a’.

**Cefin Campbell** **144**

Section 23, page 15, line 31, after ‘Welsh’, insert ‘and to maintain and improve their Welsh language ability and usage’.

Adran 23, tudalen 15, llinell 31, ar ôl ‘Cymraeg’, mewnosoder ‘ac i gynnal a gwella eu gallu yn y Gymraeg a’u defnydd ohoni’.

**Cefin Campbell** **145**

Section 23, page 15, after line 34, insert –

‘( ) through youth development services (within the meaning given in paragraph 3 of Schedule 2 to the Education (Wales) Act 2014 (anaw. 5);’.

Adran 23, tudalen 15, ar ôl llinell 35, mewnosoder –

‘( ) drwy wasanaethau datblygu ieuenctid (o fewn yr ystyr a roddir ym mharagraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 (dccc 5);’.

**Mark Drakeford** **31**

Section 23, page 15, line 38, leave out –

- ‘(a) for the purpose of implementing the National Framework in the area of each local authority;
- (b) that reflect any (national) target in the Welsh language strategy, including targets to –
  - (i) increase the number of pupils of compulsory school age receiving education in “Primarily Welsh Language” category schools in their areas;
  - (ii) increase the number of schools that are “Dual Language” category or “Primarily Welsh Language” category schools in their areas;
  - (iii) increase the provision of Welsh language education in “Dual Language” category schools and “Primarily English language, partly Welsh” language category schools in their areas’

and insert ‘that reflect any national target in the Welsh language strategy set under section 1(1)(c)’.

Adran 23, tudalen 15, llinell 39, hepgorer –

- (a) at ddiben gweithredu’r Fframwaith Cenedlaethol yn ardal pob awdurdod lleol;
- (b) sy’n adlewyrchu unrhyw darged (enedlaethol) yn strategaeth y Gymraeg, gan gynnwys targedau –
  - (i) i gynyddu nifer y disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy’n cael addysg mewn ysgolion categori “Prif Iaith – Cymraeg” yn eu hardaloedd;
  - (ii) i gynyddu nifer yr ysgolion sy’n ysgolion categori “Dwy Iaith” neu categori “Prif Iaith – Cymraeg” yn eu hardaloedd;
  - (iii) i gynyddu’r ddarpariaeth o addysg Gymraeg mewn ysgolion categori “Dwy Iaith” ac ysgolion categori “Prif Iaith - Saesneg, rhannol Gymraeg” yn eu hardaloedd’



a mewnosoder ‘sy’n adlewyrchu unrhyw darged cenedlaethol yn strategaeth y Gymraeg a bennir o dan adran 1(1)(c)’.

**Mark Drakeford** 32

Section 23, page 16, line 10, leave out ‘For the purpose of setting targets in accordance with subsection (5),’.

Adran 23, tudalen 16, llinell 10, hepgorer ‘At ddiben gosod targedau yn unol ag is-adran (5),’.

**Mark Drakeford** 33

Section 23, page 16, line 12, leave out ‘in schools’.

Adran 23, tudalen 16, llinell 12, hepgorer ‘mewn ysgolion’.

**Mark Drakeford** 34

Section 23, page 16, line 14, leave out ‘in schools’.

Adran 23, tudalen 16, llinell 14, hepgorer ‘mewn ysgolion’.

**Mark Drakeford** 35

Section 23, page 16, leave out lines 16 to 17.

Adran 23, tudalen 16, hepgorer llinellau 16 hyd at 17.

**Mark Drakeford** 36

Section 23, page 16, after line 17, insert –

‘( ) The National Framework for Welsh Language Education and Learning Welsh may set further targets to be met by local authorities for the purpose of implementing the National Framework in each local authority area.’.

Adran 23, tudalen 16, ar ôl llinell 17, mewnosoder –

‘( ) Caiff y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg osod targedau pellach sydd i’w cyflawni gan awdurdodau lleol at ddiben gweithredu’r Fframwaith Cenedlaethol yn ardal pob awdurdod lleol.’.

WITHDRAWN/TYNNWYD YN ÔL

**Mark Drakeford** 37

Section 23, page 16, after line 30, insert –

‘( ) In subsection (*subsection to be inserted by amendment 23*) “Welsh language provision in tertiary education” means –

- (a) Welsh language teaching by a tertiary education provider in Wales and
- (b) tertiary education through the medium of Welsh in Wales.’.

Adran 23, tudalen 16, ar ôl llinell 31, mewnosoder –

- ‘( ) Yn is-adran (*yr is-adran i’w mewnosod gan welliant 23*), ystyr “darpariaeth Gymraeg mewn addysg drydyddol” yw –
- (a) addysgu’r Gymraeg gan ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru a
  - (b) addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru.’

**Mark Drakeford**

72

Section 23, page 16, after line 30, insert –

- ‘( ) In subsection (*subsection to be inserted by amendment 23*) “Welsh language provision in tertiary education” means –
- (a) Welsh language teaching in tertiary education in Wales, and
  - (b) tertiary education through the medium of Welsh in Wales.’

Adran 23, tudalen 16, ar ôl llinell 31, mewnosoder –

- ‘( ) Yn is-adran (*yr is-adran i’w mewnosod gan welliant 23*), ystyr “darpariaeth Gymraeg mewn addysg drydyddol” yw –
- (a) addysgu Cymraeg mewn addysg drydyddol yng Nghymru, a
  - (b) addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru.’

**Cefin Campbell**

146

Section 23, page 16, after line 30, insert –

- ‘( ) Before making regulations under subsection (9), the Welsh Ministers must consult any persons they think appropriate.’

Adran 23, tudalen 16, ar ôl llinell 31, mewnosoder –

- ‘( ) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (9), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy.’

**Mark Drakeford**

38

Page 16, after line 30, insert a new section –

**‘[ ] National Framework: further provision on the education workforce**

- (1) The National Framework for Welsh Language Education and Learning Welsh must set out the steps the Welsh Ministers will take to ensure that training, professional development and support is available for education practitioners in Wales for the purposes of improving ability in Welsh (by reference to the Code prepared by the Welsh Ministers under section 6).
- (2) The National Framework for Welsh Language Education and Learning Welsh must also –
  - (a) include an assessment of the number of education practitioners needed in each local authority in order to meet any target set under section 23(5) and (*subsection to be inserted by amendment 36*), and

- (b) set out the steps the Welsh Ministers will take, based on that assessment, for the purposes of ensuring that the number of education practitioners working in Wales meets the need.’.

Tudalen 16, ar ôl llinell 31, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Y Fframwaith Cenedlaethol: darpariaeth bellach ar y gweithlu addysg**

- (1) Rhaid i’r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg nodi’r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chefnogaeth ar gael ar gyfer ymarferwyr addysg yng Nghymru at ddiben gwella gallu yn y Gymraeg (drwy gyfeirio at y Cod a lunnir gan Weinidogion Cymru o dan adran 6).
- (2) Rhaid i’r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg hefyd –
- (a) cynnwys asesiad o nifer yr ymarferwyr addysg y mae ei angen ymhob awdurdod lleol at ddibenion cyflawni unrhyw darged a osodir o dan adran 23(5) a (*yr is-adran i’w mewnosod gan welliant 36*), a
- (b) nodi’r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd, ar sail yr asesiad hwnnw, er mwyn sicrhau bod nifer yr ymarferwyr addysg sy’n gweithio yng Nghymru yn ateb y galw.’.

**Mark Drakeford**

39

Section 24, page 16, line 35, after ‘Framework’, insert ‘for Welsh Language Education and Learning Welsh’.

Adran 24, tudalen 16, llinell 37, ar ôl ‘Cenedlaethol’, mewnosoder ‘ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg’.

**Mark Drakeford**

40

Section 24, page 16, line 39, after ‘23(6)’, insert ‘and (*subsection (2)(a) of the section to be inserted by amendment 38*)’.

Adran 24, tudalen 16, llinell 40, ar ôl ‘23(6)’, mewnosoder ‘ac (*is-adran (2)(a) o’r adran i’w mewnosod gan welliant 38*)’.

**Mark Drakeford**

73

Section 24, page 16, line 40, leave out ‘the targets under section 23(5)’ and insert ‘targets under section 23(5), or section 23 (*subsection to be inserted by amendment 36*)’.

Adran 24, tudalen 16, llinell 41, hepgorer ‘pennu’r targedau o dan adran 23(5)’ a mewnosoder ‘pennu targedau o dan adran 23(5), neu adran 23 (*yr is-adran i’w mewnosod gan welliant 36*)’.

**Mark Drakeford**

41

Section 25, page 17, line 4, leave out ‘, over periods of 10 years.

- (2) But the Welsh Ministers must, before the end of each period of 5 years, review the National Framework to consider whether those steps need to be updated.

- (3) The Welsh Ministers must also, before the end of each period of 5 years, review the targets set by the National Framework in accordance with section 23(5) and (7) to consider whether new targets need to be set.
- (4) The Welsh Ministers must amend the National Framework if they are of the opinion that it is necessary after a review under subsection (2) or (3).
- (5) The Welsh Ministers may from time to time amend the National Framework or prepare a new one.
- (6) If the Welsh Ministers amend the National Framework, sections 24 and 26(1) and (2) apply as they apply to the preparation of the original Framework.
- (7) In respect of the period of 5 years in subsections (2) and (3) –
  - (a) the first period starts on the day that the National Framework is laid before Senedd Cymru for the first time, and
  - (b) each subsequent period starts on the day after the day the latest amended National Framework is laid before Senedd Cymru.
- (8) Subsection (7) applies to a new National Framework’

and insert ‘and section (to be inserted by amendment 38), over periods of 10 years.

- (2) The Welsh Ministers must, before the end of each period of 5 years, review and amend the National Framework for Welsh Language Education and Learning Welsh to update those steps.
- (3) The Welsh Ministers must also, before the end of each period of 5 years, review the targets set by the National Framework for Welsh Language Education and Learning Welsh in accordance with section 23(5) and (7) and set new targets if they consider it necessary.
- (4) The Welsh Ministers may from time to time –
  - (a) amend the National Framework for Welsh Language Education and Learning Welsh, including amending it to –
    - (i) modify an existing step without changing the period to which it applies;
    - (ii) add a step they intend to take during the remainder of the period to which the other steps in the National Framework apply;
    - (iii) remove a step;
  - (b) prepare a new National Framework (and the requirements of subsections (2) and (3) may be complied with by doing so).
- (5) Where the Welsh Ministers amend the National Framework for Welsh Language Education and Learning Welsh, sections 24, 26(1) and (2) apply as they apply to the preparation of the National Framework.
- (6) In respect of the period of 5 years in subsections (2) and (3) –
  - (a) the first period starts on the day that the National Framework for Welsh Language Education and Learning Welsh is laid before Senedd Cymru for the first time, and
  - (b) each subsequent period starts on the day after the day the previous period of 5 years comes to an end.
- (7) Subsection (6) applies to a new National Framework for Welsh Language Education and Learning Welsh’.

Adran 25, tudalen 17, llinell 4, hepgorer ‘, dros gyfnodau o 10 mlynedd.

- (2) Ond rhaid i Weinidogion Cymru, cyn diwedd pob cyfnod o 5 mlynedd, adolygu'r Fframwaith Cenedlaethol er mwyn ystyried a oes angendiweddarau'r camau hynny.
- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd, cyn diwedd pob cyfnod o 5 mlynedd, adolygu'r targedau a osodir gan y Fframwaith Cenedlaethol yn unol ag adran 23(5) a (7) er mwyn ystyried a oes angen gosod targedau newydd.
- (4) Rhaid i Weinidogion Cymru ddiwygio'r Fframwaith Cenedlaethol os ydynt o'r farn bod angen gwneud hynny ar ôl cynnal adolygiad o dan is-adran (2) neu (3).
- (5) Caiff Gweinidogion Cymru o bryd i'w gilydd ddiwygio'r Fframwaith Cenedlaethol neu lunio un newydd.
- (6) Pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r Fframwaith Cenedlaethol, mae adrannau 24 a 26(1) a (2) yn gymwys fel y maent yn gymwys i lunio'r Fframwaith gwreiddiol.
- (7) O ran y cyfnod o 5 mlynedd yn is-adrannau (2) a (3) –
  - (a) mae'r cyfnod cyntaf yn dechrau ar y diwrnod y gosodir y Fframwaith Cenedlaethol gerbron Senedd Cymru am y tro cyntaf, a
  - (b) mae pob cyfnod dilynol yn dechrau drannoeth y diwrnod y gosodir y Fframwaith Cenedlaethol diwygiedig diweddaraf gerbron Senedd Cymru.
- (8) Mae is-adran (7) yn gymwys i Fframwaith Cenedlaethol'

a mewnosoder 'ac adran (*i'w mewnosod gan welliant 38*), dros gyfnodau o 10 mlynedd.

- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn diwedd pob cyfnod o 5 mlynedd, adolygu a diwygio'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg er mwyn diweddarau'r camau hynny.
- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd, cyn diwedd pob cyfnod o 5 mlynedd, adolygu'r targedau a osodir gan y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg yn unol ag adran 23(5) a (7) a gosod targedau newydd os ydynt o'r farn bod angen gwneud hynny.
- (4) Caiff Gweinidogion Cymru o bryd i'w gilydd –
  - (a) diwygio'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg, gan gynnwys ei ddiwygio er mwyn –
    - (i) addasu cam sy'n bodoli eisoes heb newid y cyfnod y mae'n gymwys iddo;
    - (ii) ychwanegu cam y maent yn bwriadu ei gymryd dros weddill y cyfnod y mae camau eraill y Fframwaith Cenedlaethol yn gymwys iddo;
    - (iii) dileu cam;
  - (b) llunio Fframwaith Cenedlaethol newydd (a gellir cyflawni gofynion is-adran (2) a (3) drwy wneud hynny).
- (5) Pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg, mae adrannau 24 a 26(1) a (2) yn gymwys fel y maent yn gymwys i lunio'r Fframwaith Cenedlaethol.
- (6) O ran y cyfnod o 5 mlynedd yn is-adrannau (2) a (3) –
  - (a) mae'r cyfnod cyntaf yn dechrau ar y diwrnod y gosodir y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg gerbron Senedd Cymru am y tro cyntaf, a
  - (b) mae pob cyfnod dilynol yn dechrau drannoeth y diwrnod y mae'r cyfnod 5 mlynedd blaenorol yn dod i ben.

- (7) Mae is-adran (6) yn gymwys i Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg’.

**Mark Drakeford** 42

Section 26, page 17, line 24, leave out ‘or amending’.

Adran 26, tudalen 17, llinell 24, hepgorer ‘lunio neu ddiwygio’r’ a mewnosoder ‘lunio’r’.

**Mark Drakeford** 43

Section 26, page 17, after line 30, insert –

‘() y Coleg Cymraeg Cenedlaethol;’.

Adran 26, tudalen 17, ar ôl llinell 30, mewnosoder –

‘() y Coleg Cymraeg Cenedlaethol;’.

**Mark Drakeford** 44

Section 26, page 17, line 33, after ‘Framework’, insert ‘for Welsh Language Education and Learning Welsh’.

Adran 26, tudalen 17, llinell 33, ar ôl ‘Cenedlaethol’, mewnosoder ‘ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg’.

**Mark Drakeford** 45

Section 26, page 17, line 35, after ‘Framework’, insert ‘for Welsh Language Education and Learning Welsh’.

Adran 26, tudalen 17, llinell 35, ar ôl ‘Cenedlaethol’, mewnosoder ‘ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg’.

**Samuel Kurtz** 94

Page 18, after line 7, insert a new section –

*‘Welsh language education workforce plan*

**[ ] Welsh language education workforce plan**

- (1) The Welsh Ministers must prepare a Welsh language education workforce plan (“the Plan”).
- (2) The Plan must include provision about planning the recruitment, retention, education and training of education practitioners to deliver Welsh language education to meet any targets set in or under this Act.
- (3) The Plan may also include anything else related to the planning of the Welsh language education workforce.’.

Tudalen 18, ar ôl llinell 7, mewnosoder adran newydd –

*‘Cynllun y gweithlu addysg Gymraeg*

**[ ] Cynllun y gweithlu addysg Gymraeg**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio cynllun y gweithlu addysg Gymraeg (“y Cynllun”).
- (2) Rhaid i’r Cynllun gynnwys darpariaeth ynghylch cynllunio ar gyfer recriwtio, cadw, addysgu a hyfforddi ymarferwyr addysg i gyflwyno addysg Gymraeg er mwyn cyflawni unrhyw dargedau a osodir yn y Ddeddf hon neu odani.
- (3) Caiff y Cynllun hefyd gynnwys unrhyw beth arall sy’n gysylltiedig â chynllunio’r gweithlu addysg Gymraeg.’.

**Samuel Kurtz**

95

Page 18, after line 7, insert a new section –

**[ ] Publishing and reviewing the Welsh language education workforce plan**

- (1) The Welsh Ministers must –
  - (a) publish the Plan in force for the time being;
  - (b) review the Plan from time to time, and may amend it as appropriate.
- (2) Before publishing the Plan, or the Plan as amended from time to time, the Welsh Ministers must –
  - (a) have regard to any other education workforce plan in force for the time being;
  - (b) consult any persons they think appropriate.
- (3) In this section “other education workforce plan” means a plan prepared by the Welsh Ministers in relation to the education workforce in Wales.’.

Tudalen 18, ar ôl llinell 7, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Cyhoeddi ac adolygu cynllun y gweithlu addysg Gymraeg**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru –
  - (a) cyhoeddi’r Cynllun sydd mewn grym am y tro;
  - (b) adolygu’r Cynllun o bryd i’w gilydd, a chânt ei ddiwygio fel y bo’n briodol.
- (2) Cyn cyhoeddi’r Cynllun, neu’r Cynllun fel y’i diwygir o bryd i’w gilydd, rhaid i Weinidogion Cymru –
  - (a) rhoi sylw i unrhyw gynllun gweithlu addysg arall sydd mewn grym am y tro;
  - (b) ymgynghori ag unrhyw bersonau sy’n briodol yn eu barn hwy.
- (3) Yn yr adran hon, ystyr ‘cynllun gweithlu addysg arall’ yw cynllun a lunnir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â’r gweithlu addysg yng Nghymru’.

**Cefin Campbell**

147

Page 18, after line 7, insert a new section –

**[ ] Further provision on the education workforce**

- (1) The Welsh Ministers must prepare and publish a plan setting out how they intend to create a bilingual Welsh and English language education workforce (“the bilingual education workforce plan”).
- (2) The bilingual education workforce plan must set out what the Welsh Ministers consider to be the key priorities, risks and opportunities for developing the bilingual education workforce in Wales, including what they consider must be done in relation to the recruitment, retention and training of such workforce.
- (3) The Welsh Ministers may include anything in the bilingual education workforce plan which they consider relevant to achieving a bilingual education workforce in Wales.
- (4) The Welsh Ministers must –
  - (a) set targets in the bilingual education workforce plan in relation to the recruitment, retention and training of the bilingual education workforce in Wales;
  - (b) take all reasonable steps to implement the bilingual education workforce plan; and
  - (c) encourage others to take such steps.
- (5) The Welsh Ministers must publish the first bilingual education workforce plan before the end of 10 months starting with the day this section comes into force.
- (6) The Welsh Ministers –
  - (a) must review the bilingual education workforce plan after each general election, and
  - (b) may review the policy at any other time.
- (7) The Welsh Ministers may at any time revise the bilingual education workforce plan and must publish the bilingual education workforce plan as revised.
- (8) When the Welsh Ministers publish the bilingual education workforce plan (or a revised plan), they must also publish a report summarising –
  - (a) any consultation that was carried out in preparing the plan, and
  - (b) any representations that were received as a result of the consultation.
- (9) In subsection (6), “general election” means a poll held at an ordinary general election under section 3 of the Government of Wales Act 2006 (c. 32) or an extraordinary general election under section 5 of that Act.’

Tudalen 18, ar ôl llinell 7, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Darpariaeth bellach o ran y gweithlu addysg**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi cynllun sy’n nodi sut y maent yn bwriadu creu gweithlu addysg dwyieithog Cymraeg a Saesneg (“y cynllun gweithlu addysg dwyieithog”).
- (2) Rhaid i’r cynllun gweithlu addysg dwyieithog nodi’r hyn y mae Gweinidogion Cymru yn ei ystyried yw’r blaenoriaethau, y risgiau a’r cyfleoedd allweddol ar gyfer datblygu’r gweithlu addysg dwyieithog yng Nghymru, gan gynnwys yr hyn y maent yn ystyried y mae rhaid ei wneud mewn perthynas â recriwtio, cadw a hyfforddi gweithlu o’r fath.
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru gynnwys unrhyw beth yn y cynllun gweithlu addysg dwyieithog y maent yn ystyried ei fod yn berthnasol i gyflawni gweithlu addysg dwyieithog yng Nghymru.
- (4) Rhaid i Weinidogion Cymru –

- (a) pennu targedau yn y cynllun gweithlu addysg dwyieithog mewn perthynas â recriwtio, cadw a hyfforddi’r gweithlu addysg dwyieithog yng Nghymru;
  - (b) cymryd pob cam rhesymol er mwyn gweithredu’r cynllun gweithlu addysg dwyieithog; ac
  - (c) annog eraill i gymryd camau o’r fath.
- (5) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi’r cynllun gweithlu addysg dwyieithog cyntaf cyn diwedd y 10 mis sy’n dechrau â’r diwrnod y mae’r adran hon yn dod i rym.
- (6) Mewn perthynas â’r cynllun gweithlu addysg dwyieithog –
- (a) rhaid i Weinidogion Cymru ei adolygu ar ôl pob etholiad cyffredinol, a
  - (b) caiff Gweinidogion Cymru ei adolygu ar unrhyw adeg arall.
- (7) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio’r cynllun gweithlu addysg dwyieithog ar unrhyw adeg a rhaid iddynt gyhoeddi’r cynllun gweithlu addysg dwyieithog fel y’i diwygiwyd.
- (8) Pan fydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi’r cynllun gweithlu addysg dwyieithog (neu gynllun diwygiedig), rhaid iddynt hefyd gyhoeddi adroddiad sy’n crynhoi –
- (a) unrhyw ymgynghoriad a gynhaliwyd wrth lunio’r cynllun, a
  - (b) unrhyw sylwadau a gafwyd o ganlyniad i’r ymgynghoriad.
- (9) Yn is-adran (6), ystyr “etholiad cyffredinol” yw pleidlais a gynhelir mewn etholiad cyffredinol arferol o dan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth

**Mark Drakeford**

74

Section 28, page 18, after line 17, insert –

- ‘( ) A local Welsh in education strategic plan must also, to the extent that regulations made by the Welsh Ministers so require, set out how the local authority will exercise its education functions to promote and facilitate –
- (a) teaching Welsh, and
  - (b) education and training through the medium of Welsh,
- in relation to children of compulsory school age who are not pupils in schools.’

Adran 28, tudalen 18, ar ôl llinell 17, mewnosoder –

- ‘( ) Rhaid i gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg hefyd, i’r graddau y mae rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn gwneud hynny’n ofynnol, nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau addysg i hybu a hwyluso –
- (a) addysgu’r Gymraeg, a
  - (b) addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg,
- mewn perthynas â phlant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn ddisgyblion mewn ysgolion.’

**Mark Drakeford**

46

Section 28, page 18, line 21, leave out ‘in schools’.

Adran 28, tudalen 18, llinell 21, hepgorer ‘mewn ysgolion’.

**Samuel Kurtz**

96

Section 28, page 18, after line 25, insert –

- ‘() to enable the governing body of every school it maintains to ensure that education practitioners are sufficiently qualified to provide education and training in a particular subject and to deliver that education and training through the medium of Welsh;’.

Adran 28, tudalen 18, ar ôl llinell 26, mewnosoder –

- ‘() i alluogi corff llywodraethu pob ysgol a gynhelir ganddo i sicrhau bod ymarferwyr addysg yn meddu ar gymwysterau digonol) i ddarparu addysg a hyfforddiant mewn pwnc penodol ac i gyflwyno’r addysg honno a’r hyfforddiant hwnnw drwy gyfrwng y Gymraeg;’.

**Mark Drakeford**

47

Section 28, page 18, line 27, leave out ‘and “Dual Language” category’.

Adran 28, tudalen 18, llinell 28, hepgorer ‘ac ysgolion categori “Dwy Iaith”’.

**Samuel Kurtz**

97

Section 28, page 18, after line 28, insert –

- ‘() to provide assistance to the governing body of every school it maintains in supporting parents in their engagement with, and understanding of Welsh language education’.

Adran 28, tudalen 18, ar ôl llinell 28, mewnosoder –

- ‘() i roi cymorth i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir ganddo i gefnogi rhieni o ran eu hymgysylltiad ag addysg Gymraeg a’u dealltwriaeth ohoni;’.

**Mark Drakeford**

48

Section 28, page 18, line 30, leave out ‘progression’ and insert ‘continuity’.

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version.

**Mark Drakeford**

49

Section 28, page 18, after line 32, insert –

- ‘() maintained primary schools and maintained secondary schools, and’.

Adran 28, tudalen 18, ar ôl llinell 33, mewnosoder –

- ‘() ysgolion cynradd a gynhelir ac ysgolion uwchradd a gynhelir, a’.

**Mark Drakeford**

50

Section 28, page 19, line 5, after ‘school’, insert ‘and the head teacher of every maintained nursery school’.

Adran 28, tudalen 19, llinell 4, hepgorer ‘gynhelir ganddo’ a mewnosoder ‘phennaeth pob ysgol feithrin a gynhelir y mae’n eu cynnal’.

**Mark Drakeford**

51

Section 28, page 19, line 6, after ‘school’, insert ‘and the governing body of every maintained nursery school’.

Adran 28, tudalen 19, llinell 5, hepgorer ‘gynhelir ganddo’ a mewnosoder ‘chorff llywodraethu pob ysgol feithrin a gynhelir y mae’n eu cynnal’.

**Mark Drakeford**

52

Section 28, page 19, line 9, leave out ‘established’ and insert ‘foundation’.

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version.

**Mark Drakeford**

75

Section 28, page 19, after line 13, insert –

‘() the Commission for Tertiary Education and Research;’.

Adran 28, tudalen 19, ar ôl llinell 12, mewnosoder –

‘() y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil;’.

**Cefin Campbell**

148

Section 28, page 19, after line 13, insert –

‘() Mudiad Meithrin;’.

Adran 28, tudalen 19, ar ôl llinell 12, mewnosoder –

‘() Mudiad Meithrin;’.

**Mark Drakeford**

53

Section 31, page 20, line 6, leave out ‘maintained school in its area’ and insert ‘school and the governing body of every maintained nursery school it maintains’.

Adran 31, tudalen 20, llinell 6, hepgorer ‘gynhelir yn ei ardal’ a mewnosoder ‘chorff llywodraethu pob ysgol feithrin a gynhelir y mae’n eu cynnal’.

**Mark Drakeford** 54

Section 31, page 20, line 9, leave out ‘established’ and insert ‘foundation’.

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version.

**Cefin Campbell** 149

Section 32, page 20, line 17, leave out subsections (2) to (4).

Adran 32, tudalen 20, llinell 17, hepgorer is-adrannau (2) hyd at (4).

**Cefin Campbell** 150

Section 32, page 20, line 32, leave out ‘or in response to a direction under subsection (3)’.

Adran 32, tudalen 20, llinell 33, hepgorer ‘neu mewn ymateb i gyfarwyddyd o dan is-adran (3)’.

**Cefin Campbell** 151

Section 32, page 20, line 34, leave out ‘31 and the remainder of this section’ and insert ‘(section to be inserted by amendment 152)’.

Adran 32, tudalen 20, llinell 35, hepgorer ‘31 a gweddill yr adran hon’ a mewnosoder ‘(yr adran i’w mewnosod gan welliant 152)’.

**Cefin Campbell** 152

Page 20, after line 35, insert a new section –

**[ ] Power to amend or impose local Welsh in education strategic plan**

If the Welsh Ministers consider that a local authority is unlikely to meet a target that applies to it in the National Framework for Welsh Language Education and Learning Welsh it may –

- (a) amend a local authority’s local Welsh in education strategic plan, or
- (b) impose a new local Welsh in education strategic plan on a local authority.’.

Tudalen 20, ar ôl llinell 36, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Pŵer i ddiwygio neu osod cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg**

Os yw Gweinidogion Cymru o’r farn nad yw awdurdod lleol yn debygol o gyrraedd targed sy’n gymwys iddo yn y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg, caiff wneud y canlynol –

- (a) diwygio cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg awdurdod lleol, neu
- (b) gosod cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg newydd ar awdurdod lleol.’.

**Mark Drakeford**

55

Section 35, page 21, line 24, after 'school,' at the first place where it appears on a line, insert 'during school sessions,'.

Adran 35, tudalen 21, llinell 26, ar ôl 'ysgol,' yn y lle cyntaf y mae'n ymddangos, mewnosoder 'yn ystod sesiynau ysgol,'.

**Mark Drakeford**

56

Section 35, page 21, line 25, leave out ', except in sections 28(4)(b) and 31(1),'.

Adran 35, tudalen 21, llinell 27, hepgorer ', ac eithrio yn adrannau 28(4)(b) a 31(1),'.

**Mark Drakeford**

57

Section 35, page 22, after line 8, insert –

- ( ) "foundation governor", in relation to a foundation school or a voluntary school, means a person appointed as a foundation governor in accordance with regulations under section 19 of the Education Act 2002 (c. 32).'

Adran 35, tudalen 22, ar ôl llinell 7, mewnosoder –

- ( ) ystyr "llywodraethwr sefydledig" mewn perthynas ag ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, yw person a benodwyd yn llywodraethwr sefydledig yn unol â rheoliadau o dan adran 19 o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32).'

**Mark Drakeford**

90

Schedule 2, page 35, line 11, leave out 'on such terms and conditions (including terms and conditions as to remuneration, expenses, allowances and pension) as they determine.'

and insert –

- ( ) The person appointed under sub-paragraph (2) is to be appointed on such terms and conditions (including terms and conditions as to remuneration, expenses, allowances and pension) as the Welsh Ministers may determine.
- ( ) But where the Transfer of Undertakings (Protection of Employment) Regulations 2006 (S.I. 2006/246) apply in relation to the person appointed under sub-paragraph (2) the appointment and the determination of that person's terms and conditions under sub-paragraph (3) must be made in accordance with those Regulations.'

Atodlen 2, tudalen 35, llinell 11, hepgorer 'ar unrhyw delerau ac amodau (gan gynnwys telerau ac amodau o ran tâl, treuliau, lwfansau a phensiwn) y maent yn penderfynu arnynt.'

a mewnosoder –

- ( ) Mae'r person a benodir o dan is-baragraff (2) i'w benodi ar unrhyw delerau ac amodau (gan gynnwys telerau ac amodau o ran tâl, treuliau, lwfansau a phensiwn) y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt.
- ( ) Ond pan fo Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (O.S. 2006/246) yn gymwys mewn perthynas â'r person a benodir o dan is-baragraff (2) rhaid i'r penodiad a'r penderfyniad ar delerau ac amodau'r person hwnnw o dan is-baragraff (3) gael eu gwneud yn unol â'r Rheoliadau hynny.'

**Mark Drakeford** 91

Schedule 2, page 35, line 18, leave out ‘of staff’.

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version.

**Cefin Campbell** 153

Section 37, page 22, after line 21, insert –

- ‘( ) assess, from time to time, the need for Welsh language teaching skills amongst the education workforce in order to meet the targets set under section 1(1);’.

Adran 37, tudalen 22, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

- ‘( ) asesu, o bryd i’w gilydd, yr angen o ran sgiliau addysgu Cymraeg ymysg y gweithlu addysg er mwyn cyflawni’r targedau a osodwyd o dan adran 1(1);’.

**Cefin Campbell** 154

Section 37, page 22, line 24, after ‘arrangements’, insert ‘in accordance with the assessments carried out under paragraph (*paragraph to be inserted by amendment 153*)’.

Adran 37, tudalen 22, llinell 24, ar ôl ‘trefniadau’, mewnosoder ‘, yn unol â’r asesiadau a gyflawnwyd o dan baragraff (*y paragraff i’w fewnosod gan welliant 153*)’.

**Cefin Campbell** 155

Section 37, page 23, after line 2, insert –

- ‘( ) Arrangements made under subsection (2)(e)(i) must include –
  - (a) the provision of intensive courses to increase the Welsh language capacity of the education workforce,
  - (b) other support and incentives for the education workforce to increase the Welsh language capacity of the education workforce.’.

Adran 37, tudalen 23, ar ôl llinell 2, mewnosoder –

- ‘( ) Rhaid i drefniadau a wneir o dan is-adran 2(e)(i) gynnwys –
  - (a) darparu cyrsiau dwys i gynyddu capasiti y gweithlu addysg o ran y Gymraeg,
  - (b) mathau eraill o gymorth a chymelliadau ar gyfer y gweithlu addysg at ddiben cynyddu capasiti y gweithlu addysg o ran y Gymraeg.’.

**Mark Drakeford** 76

Section 37, page 23, line 6, leave out ‘Welsh language learning provider’ and insert ‘person’.

Adran 37, tudalen 23, llinell 6, hepgorer ‘ddarparwr dysgu Cymraeg’ a mewnosoder ‘berson’.

**Mark Drakeford**

77

Section 37, page 23, line 17, leave out ‘levels of learning Welsh’ and insert ‘learning levels’.

Adran 37, tudalen 23, llinell 17, hepgorer ‘drwy wahanol lefelau dysgu Cymraeg’ a mewnosoder ‘drwy’r gwahanol lefelau dysgu’.

**Mark Drakeford**

78

Section 37, page 23, line 18, after ‘The’, insert ‘national curriculum for Welsh language learning referred to in subsection (2)(g) and the’.

Adran 37, tudalen 23, llinell 19, ar ôl ‘seilio’r’, mewnosoder ‘cwricwlwm cenedlaethol dysgu Cymraeg y cyfeirir ato yn is-adran (2)(g) a’r’.

**Mark Drakeford**

79

Section 37, page 23, line 21, leave out ‘, a “Welsh language learning provider” means a person who teaches Welsh, or provides’

and insert ‘ –

“compulsory school age” (“*oedran ysgol gorfodol*”) has the meaning given by section 8 of the Education Act 1996;

“Welsh language learning provider” (“*darparwr dysgu Cymraeg*”) means a person funded by the Learning Welsh Institute to provide’.

Adran 37, tudalen 23, llinell 22, hepgorer ‘yw person sy’n addysgu Cymraeg, neu’n darparu addysgu Cymraeg, i bobl sydd dros oedran ysgol gorfodol’

a mewnosoder –

“(“*Welsh language learning provider*”) yw person a ariennir gan yr Athrofa Dysgu Cymraeg i ddarparu addysgu Cymraeg i bobl sydd dros oedran ysgol gorfodol; mae i “*oedran ysgol gorfodol*” yr ystyr a roddir i “*compulsory school age*” gan adran 8 o Ddeddf Addysg 1996’.

**Mark Drakeford**

80

Section 39, page 23, line 30, after ‘learning’, insert ‘programmes’.

Adran 39, tudalen 23, llinell 31, ar ôl ‘mewn’, mewnosoder ‘rhaglenni’.

**Mark Drakeford**

81

Section 39, page 23, line 33, leave out ‘courses of Welsh language learning’ and insert ‘Welsh language learning programmes’.

Adran 39, tudalen 23, llinell 34, hepgorer ‘cyrsiau’ a mewnosoder ‘rhaglenni’.

**Mark Drakeford**

**82**

Section 39, page 24, line 1, leave out ‘are groups of people that are under-represented in Welsh language education as a result of social, cultural, economic or organisational factors’

and insert

“(“grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol”) means groups of people that are under-represented in Welsh language learning programmes as a result of social, cultural, economic or organisational factors;

“Welsh language learning programmes” (“rhaglenni dysgu Cymraeg”) means Welsh language learning programmes provided by the Learning Welsh Institute or by a Welsh language learning provider’.

Adran 39, tudalen 24, llinell 1, hepgorer ‘, “grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol” yw grwpiau o bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg Gymraeg o ganlyniad i ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol’

a mewnosoder ‘ –

ystyr “grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol” (“under-represented groups”) yw grwpiau o bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn rhaglenni dysgu Cymraeg o ganlyniad i ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol;

ystyr “rhaglenni dysgu Cymraeg” (“Welsh language learning programmes”) yw rhaglenni dysgu Cymraeg a ddarperir gan yr Athrofa Dysgu Cymraeg neu gan ddarparwr dysgu Cymraeg’.

**Mark Drakeford**

**83**

Section 41, page 24, line 19, leave out ‘schools in Wales (that are not Welsh language learning providers)’ and insert ‘maintained schools and between Welsh language learning providers and maintained nursery schools’.

Adran 41, tudalen 24, llinell 18, hepgorer ‘yng Nghymru (nad ydynt yn ddarparwyr dysgu Cymraeg)’ a mewnosoder ‘a gynhelir a rhwng darparwyr dysgu Cymraeg ac ysgolion meithrin a gynhelir’.

**Mark Drakeford**

**84**

Section 43, page 25, line 2, leave out ‘after paragraph (4) insert –

“(5) The National Institute for Learning Welsh, requiring it to comply with any of the standards specified under regulation 2 and the Schedules.”

and insert ‘in paragraph (3), after “Higher Education Corporations in Wales” insert “the National Institute for Learning Welsh”’.

Adran 43, tudalen 25, llinell 1, hepgorer ‘ar ôl paragraff (4) mewnosoder –

“(5) Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, sy’n ei gwneud yn ofynnol iddi gydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o’r safonau a bennir o dan reoliad 2 a’r Atodlenni.”

a mewnosoder ‘ym mharagraff (3), ar ôl “Corfforaethau Addysg Uwch yng Nghymru” mewnosoder “Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol”’.

**Mark Drakeford**

85

Section 44, page 25, line 17, leave out ‘the providers of Welsh language learning who receive financial support from the Learning Welsh Institute’ and insert ‘Welsh language learning providers’.

Adran 44, tudalen 25, llinell 18, hepgorer ‘sy’n cael cefnogaeth ariannol gan yr Athrofa Dysgu Cymraeg’.

**Cefin Campbell**

156

Page 26, after line 4, insert a new section –

**[ ] Funding**

The Welsh Ministers must pay to the Learning Welsh Institute an amount sufficient to enable functions conferred by or under this Part to be carried out.’.

Tudalen 26, ar ôl llinell 4, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Cyllid**

Rhaid i Weinidogion Cymru dalu i’r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol swm sy’n ddigonol er mwyn galluogi swyddogaethau a roddir gan y Rhan hon neu oddi tani i gael eu cyflawni.’.

**Mark Drakeford**

58

Section 46, page 26, line 12, leave out ‘and the governing body of a’ and insert ‘, the governing body of a maintained school and the governing body of a maintained nursery’.

Adran 46, tudalen 26, llinell 12, hepgorer ‘a chorff llywodraethu ysgol’ a mewnosoder ‘, corff llywodraethu ysgol a gynhelir a chorff llywodraethu ysgol feithrin a gynhelir’.

**Mark Drakeford**

86

Section 49, page 26, line 29, leave out subsections (1) to (2).

Adran 49, tudalen 26, llinell 30, hepgorer is-adrannau (1) hyd at (2).

**Samuel Kurtz**

98

Section 49, page 26, after line 34, insert –

“parent” (“rhiant”) has the meaning given by section 576 of the Education Act 1996;’.

Adran 49, tudalen 26, ar ôl llinell 35, mewnosoder –

‘mae i “rhiant” (“parent”) yr ystyr a roddir i “parent” gan adran 576 o Ddeddf Addysg 1996;’.

WITHDRAWN/TYNNWYD YN ÔL

**Mark Drakeford**

59

Section 49, page 27, after line 4, insert –

“secondary school” has the meaning given by section 5(2) of the Education Act 1996’.

Adran 49, tudalen 27, ar ôl llinell 4, mewnosoder –

‘mae i “ysgol uwchradd” yr ystyr a roddir i “secondary school” yn adran 5(2) o Ddeddf Addysg 1996’.

**Mark Drakeford**

60

Section 49, page 27, line 23, after ‘school’, insert ‘in Wales’.

Adran 49, tudalen 27, llinell 27, ar ôl ‘wirfoddol’, mewnosoder ‘yng Nghymru’.

**Mark Drakeford**

61

Section 49, page 27, line 24, leave out ‘, except’ and insert ‘in Wales, other than’.

Adran 49, tudalen 27, llinell 28, ar ôl ‘gymunedol’ yn y lle cyntaf y mae’n ymddangos, mewnosoder ‘yng Nghymru’.

**Mark Drakeford**

62

Section 49, page 27, line 26, leave out ‘(c) a maintained nursery school,’.

Adran 49, tudalen 27, llinell 30, hepgorer ‘(c) ysgol feithrin a gynhelir,’.

**Mark Drakeford**

63

Section 49, page 27, line 27, after ‘unit’, insert ‘in Wales’.

Adran 49, tudalen 27, llinell 31, ar ôl ‘disgyblion’, mewnosoder ‘yng Nghymru’.

**Mark Drakeford**

64

Section 49, page 27, after line 29, insert –

“school sessions” (“*sesiynau ysgol*”) means school sessions commencing and ending at such times as may be determined from time to time in accordance with section 32C of the Education Act 2002 (c. 32);’.

Adran 49, tudalen 27, ar ôl llinell 25, mewnosoder –

‘ystyr “sesiynau ysgol” (“*school sessions*”) yw sesiynau ysgol sy’n dechrau ac yn dod i ben ar yr amserau hynny a benderfynir o bryd i’w gilydd yn unol ag adran 32C o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32);’.

WITHDRAWN/TYNNWYD YN ÔL

**Mark Drakeford**

65

Section 49, page 27, line 30, leave out ‘has’ and insert ‘and “tertiary education provider in Wales” (“darparwr addysg drydyddol yng Nghymru”) have’.

Adran 49, tudalen 27, llinell 10, ar ôl ‘education’), mewnosoder ‘a “darparwr addysg drydyddol yng Nghymru” (“tertiary education provider in Wales”)’.

**Mark Drakeford**

87

Section 49, page 27, after line 39, insert –

- ( ) Other expressions in subsection (3), section 1(1)(c) and Parts 3 and 4 of this Act that are defined in, or given a meaning by, the Education Act 1996 (c. 56) have the same meaning as in that Act, including –

“compulsory school age” (“oedran ysgol gorfodol”) (see section 8 of the Education Act 1996);

“education functions” (“swyddogaethau addysg”) (see the functions specified in Schedule 36A to the Education Act 1996);

“primary school” (“ysgol gynradd”) (see section 5(1) of the Education Act 1996);

“pupil” (“disgybl”) (see section 3 of the Education Act 1996);

“pupil referral unit” (“uned cyfeirio disgyblion”) (see section 19A(2) of the Education Act 1996);

“school year” (“blwyddyn ysgol”) (see section 579(1) of the Education Act 1996);

“secondary school” (“ysgol uwchradd”) (see section 5(2) of the Education Act 1996).

- ( ) But where for the purposes of this Act an expression is given (either by this Act or by the Legislation (Wales) Act 2019 (anaw 4)) a meaning different from that given to it for the purposes of the Education Act 1996, that meaning applies for the purposes of that provision instead of the one given for the purposes of the 1996 Act.’.

Adran 49, tudalen 27, ar ôl llinell 39, mewnosoder –

- ( ) Mae i ymadroddion eraill yn is-adran (3), adran 1(1)(c), a Rhannau 3 a 4 o’r Ddeddf hon, y diffinnir yr ymadroddion Saesneg cyfatebol iddynt yn Neddf Addysg 1996 (p. 56), neu y rhoddir ystyr iddynt ganddi, yr un ystyr ag a roddir i’r ymadroddion Saesneg cyfatebol hynny yn y Ddeddf honno, gan gynnwys –

“blwyddyn ysgol” (“school year”) (gweler adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996);

“disgybl” (“pupil”) (gweler adran 3 o Ddeddf Addysg 1996);

“oedran ysgol gorfodol” (“compulsory school age”) (gweler adran 8 o Ddeddf Addysg 1996);

“swyddogaethau addysg” (“education functions”) (gweler y swyddogaethau a bennir yn Atodlen 36A i Ddeddf Addysg 1996);

“uned cyfeirio disgyblion” (“pupil referral unit”) (gweler adran 19A(2) o Ddeddf Addysg 1996);

“ysgol gynradd” (“primary school”) (gweler adran 5(1) o Ddeddf Addysg 1996);

“ysgol uwchradd” (“secondary school”) (gweler adran 5(2) o Ddeddf Addysg 1996).

- ( ) Ond pan fo ystyr wedi ei roi i ymadrodd at ddibenion y Ddeddf hon (naill ai gan y Ddeddf hon neu gan Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4)) sy'n wahanol i'r ystyr a roddir iddo at ddibenion Deddf Addysg 1996, mae'r ystyr hwnnw yn gymwys at ddibenion y ddarpariaeth honno yn lle'r un a roddir at ddibenion Deddf 1996'.

**Mark Drakeford**

**66**

Section 51, page 28, line 17, after 'or', insert ', in the case of a person who is a body corporate, addressed to the secretary or clerk of the body at its registered or principal office, or'.

Adran 51, tudalen 28, llinell 21, ar ôl 'neu', mewnosoder ', yn achos person sy'n gorff corfforedig, wedi ei gyfeirio at ysgrifennydd neu glerc y corff yn ei swyddfa gofrestrdig neu ei brif swyddfa, neu'.

**Mark Drakeford**

**67**

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.

Adran 52, tudalen 29, llinell 3, hepgorer 'pŵer i wneud'.

**Mark Drakeford**

**69**

Section 52, page 29, line 7, after 'sections', insert '(subsection to be inserted by amendment 3)'.

Adran 52, tudalen 29, llinell 9, ar ôl 'adrannau', mewnosoder '(yr is-adran i'w mewnosod gan welliant 3)'.

**Cefin Campbell**

**157**

Section 52, page 29, line 7, leave out '3(1)' and insert '3 (subsection to be inserted by amendment 106)'.

Adran 52, tudalen 29, llinell 9, hepgorer '3(1)' yn y lle cyntaf y mae'n ymddangos a mewnosoder '3 (yr is-adran i'w mewnosod gan welliant 106)'.

**Mark Drakeford**

**68**

Section 52, page 29, line 7, leave out '(2)(b),' at the first place where it appears on a line and insert '(subsection to be inserted by amendment 10)'.

Adran 52, tudalen 29, llinell 9, hepgorer '(2)(b),' yn y lle cyntaf y mae'n ymddangos a mewnosoder '(yr is-adran i'w mewnosod gan welliant 10)'.

**Cefin Campbell**

**158**

Section 52, page 29, line 7, leave out ', (3)(a) and (b)(ii)' and insert 'and (3)(a)'.

Adran 52, tudalen 29, llinell 9, hepgorer ', (3)(a) a (b)(ii)' a mewnosoder 'a (3)(a)'.



**Cefin Campbell** 160

Section 52, page 29, line 8, after '(2)', insert '(subsection 3 to be inserted by amendment 124), (subsection 4 to be inserted by amendment 124)'.

Adran 52, tudalen 29, llinell 10, ar ôl '(2)', mewnosoder '(yr is-adran 3 i'w mewnosod gan welliant 124), (yr is-adran 4 i'w mewnosod gan welliant 124)'.

**Cefin Campbell** 159

Section 52, page 29, line 8, after '14(4)', insert '(subsection 4 to be inserted by amendment 128)'.

Adran 52, tudalen 29, llinell 10, ar ôl '14(4)', mewnosoder '(is-adran 4 i'w mewnosod gan welliant 128)'.

**Mark Drakeford** 88

Section 52, page 29, line 8, leave out 'paragraph' and insert 'paragraphs 2(4) and'.

Adran 52, tudalen 29, llinell 10, hepgorer 'pharagraff' a mewnosoder 'pharagraffau 2(4) a'.

**Mark Drakeford** 70

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.

Adran 52, tudalen 29, llinell 15, hepgorer 'ddiddymu' a mewnosoder 'annilysu'.

**Mark Drakeford** 89

Section 54, page 29, after line 32, insert –

'( ) Part 5 and Schedule 2 come into force on 1 August 2027.'

Adran 54, tudalen 29, ar ôl llinell 35, mewnosoder –

'( ) Daw Rhan 5 ac Atodlen 2 i rym ar 1 Awst 2027.'

**Mark Drakeford** 71

Section 54, page 29, line 31, after '5', insert 'and Schedule 1'.

Adran 54, tudalen 29, llinell 34, ar ôl '5', mewnosoder 'ac Atodlen 1'.

**Cefin Campbell** 99

Long title, page 1, line 2, after 'to' at the second place where it appears on a line, insert 'at least'.

Teitl hir, tudalen 1, llinell 2, ar ôl 'i' yn yr ail le y mae'n ymddangos, mewnosoder 'o leiaf'.